CYNLLUN BUSNES 2020-21

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

1. Cymwysterau Cymru **2**
1.1 Cyflwyniad **2**
1.2 Ein diben **2**

2. Crynodeb **3**

3. Blaenoriaethau gweithredol 2020-21 ..... **4**
3.1 Cyflwyniad a chyd-destun **4**
3.2 Blaenoriaeth 1 – Adolygu **4**
3.3 Blaenoriaeth 2 – Diwygio **6**
3.4 Blaenoriaeth 3 – Rheoleiddio **7**
3.5 Blaenoriaeth 4 – Adnoddau corfforaethol **9**

4. Cyllid a gwariant arfaethedig 2020-21 ..... **11**

5. Monitro ac adolygu **12**

6. Dolenni defnyddiol **12**

1. Cymwysterau Cymru

1.1. Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru. Rydym yn gorff annibynnol sy'n canolbwyntio ar gymwysterau a ariennir gan arian cyhoeddus, gan gynnwys cymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol. Rydym yn gweithio gydag eraill i adolygu a diwygio cymwysterau.

Nid yw graddau prifysgol yn rhan o'n gwaith, ond rydym yn gweithio gyda phrifysgolion a cholegau i sicrhau eu bod nhw'n deall cymwysterau fel y gall dysgwyr symud ymlaen at addysg uwch. Rydym ni eisiau i gymwysterau fod cystal â phosibl ar gyfer dysgwyr, athrawon a chyflogwyr, gan helpu pobl i addasu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Rydym yn gweithio gyda chyrff dyfarnu i ymestyn argaeledd cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

2020-21 yw ein pumed blwyddyn ariannol lawn o weithredu. Mae canolbwynt ein gwaith o gefnogi a chryfhau'r system gymwysterau yng Nghymru wedi ei nodi yn ein cynlluniau strategol, fydd yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn nesaf:

Strategaeth Cymwysterau Cymru
Cynllun Strategol Cymwysterau Cyffredinol
Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol
Cynllun Strategol ar gyfer Gallu Corfforaethol

Mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2020-21 yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol ac mae wedi'i sefydlu o fewn cyd-destun y dirwedd gymwysterau bresennol a'n gwaith parhaus. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi eu cymeradwyo gan ein Bwrdd.

Dylid nodi mai gwaelodlin yw'r Cynllun Busnes cyhoeddedig hwn ac mae'r cynllunio wedi bod yn seiliedig ar staff llawn a gweithio ar gapasiti llawn. Mae lledaeniad diweddar coronafeirws (COVID-19), wedi effeithio ar gyflawni'r cynllun gweithredol a'n blaenoriaethau. Rydyn yn rhagweld y bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn er mwyn ymateb i newidiadau yn ein gallu, gwaith ychwanegol angenrheidiol ac amseru priodol rhai o'r gweithgareddau arfaethedig.

1.2. Ein diben

Fel rheoleiddiwr annibynnol, mae gennym ddau brif nod

- Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; a

- Ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Mae hyn yn golygu bod y dysgwr yn ganolog i'n gweithgarwch.

Mae gennym hefyd gyfrifoldeb i edrych ar y system gymwysterau yn ei chyfanrwydd i sicrhau ei bod yn gweithio er budd dysgwyr, a gweithredu neu gynghori eraill i wneud yr un fath, os oes angen. Rhan o'n gwaith yw sicrhau bod cymwysterau yn y system yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gennym bwerau a dyletswyddau i reoleiddio cyrff dyfarnu a gallwn ymyrryd yn bositif er mwyn sicrhau gwelliannau i gymwysterau neu'r system gymwysterau.

Yn Cymwysterau Cymru, rydym yn diogelu gwerth cymwysterau, gan oruchwylio bod cymwysterau'n cael eu dyfarnu'n deg a'u hadolygu a'u datblygu wrth i anghenion dysgwyr newid. Gan mai ni yw'r arbenigwyr cymwysterau dibynadwy, rydym yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion perthnasol. Rydym hefyd yn ystyried anghenion cyflogwyr, y sector addysg uwch a'r proffesiynau. Mae ein rôl yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; mae ei phwrpas a'i gofynion yn cyd-fynd â'r ffordd rydyn ni'n gweithio, gan fod angen ystyried addysg yn hirdymor. Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd oherwydd dim ond un rhan o'r system addysg gyflawn yng Nghymru ydym ni. Rydym wedi gosod amcanion gwirfoddol i'n hunain i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byddwn yn adrodd ar ein cynnydd yn ystod 2020/21.

2. Crynodeb

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn ymdrin â'n pumed blwyddyn ariannol lawn o weithredu. Mae addysg a'r system gymwysterau yn parhau i fod o ddiddordeb gwleidyddol a chyhoeddus mawr. Mae ein cynllun yn darparu diwygiadau ble bo angen, wrth i ni barhau i reoleiddio a monitro'r system fel y caiff cymwysterau eu hasesu a'u dyfarnu'n deg, gan gynnal safonau, a sicrhau hyder cyhoeddus.

Rydym wedi hen ddechrau ar ein gwaith o ystyried sut y dylai cymwysterau i ddysgwyr 14 i 16 oed newid er mwyn cefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Byddwn yn dechrau'r flwyddyn trwy adrodd y canlyniadau sy'n deillio o'r ymateb i'n hymgynghoriad cyntaf. Yn ystod y flwyddyn byddwn ni wedyn yn casglu ymchwil, barn rhanddeiliaid a chyngor arbenigol ac yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer y gyfres o gymwysterau, eu cynllun, a phryd i'w cyflwyno.

Byddwn yn cwblhau ein gwaith gyda rhanddeiliaid i ystyried gwelliannau i Fagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Eleni, byddwn yn canolbwyntio ar ddiwygio'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch. Byddwn yn ystyried newidiadau i Dystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 fel rhan o'n gwaith ehangach ar gymwysterau i ddysgwyr 14 i 16 oed.

Byddwn yn parhau â'n rhaglen o adolygiadau sector, gan ystyried a yw'r detholiad o gymwysterau mewn sector diwydiant yn diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Trwy adolygu'r sector galwedigaethol byddwn yn sicrhau bod y cymwysterau yn gymorth i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen gan gyflogwyr yng Nghymru - nawr ac yn y dyfodol. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad ar adolygu peirianneg a gweithgynhyrchu uwch ac ynni, ac rydym yn bwriadu dechrau gwaith ar adolygu'r sector teithio, twristiaeth, hamdden, lletygarwch ac arlwyo.

Mae ton gyntaf y cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol cymeradwy eisoes yn cael eu haddysgu. Bydd yr ail don o gymwysterau ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf yr hydref hwn. Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd yn bwriadu cymeradwyo cymwysterau TGAU a Safon Uwch

newydd mewn Technoleg Ddigidol a'r Amgylchedd Adeiledig, a chymeradwyo'r cymwysterau ôl-16 newydd mewn gwasanaethau adeiladu ac adeiladau ar gyfer Sylfaen, Cynnydd a chymwysterau Prentisiaeth.

Pan fyddwn ni'n gwneud newidiadau i gymwysterau, y bwriad yw sicrhau gwell asesu, llwybrau cynnydd mwy eglur i ddysgwyr a ffocws clir ar yr hyn mae cyflogwyr a chyrff sector yn dweud wrthon ni maen nhw ei eisiau. Mae hyn yn helpu i greu gweithlu sy'n addas i anghenion Cymru yn yr 21ain ganrif. Mae rôl glir gan ein gwaith i helpu dysgwyr wella a datblygu sgiliau er mwyn cael swydd, ac felly gwella ffyniant a thwf economaidd cyffredinol.

Cefnogir ein gwaith gan raglen ymchwil a chasglu a dadansoddi data. Mae hyn yn datblygu ein tystiolaeth a'n dealltwriaeth er mwyn ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau.

Byddwn ni'n parhau ein gwaith o annog mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth asesu. Byddai cydnabod newid yn dibynnu ar ddefnyddio'r holl system gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cyrff dyfarnu a chanolfannau, a chlustnodi rhagor o adnoddau technoleg ar hyd a lled y system.

Rydym yn sylweddoli bod ein diwygiadau yn golygu newid i'r rheini sy'n addysgu'r cymwysterau newydd. Rydym yn cryfhau ein ffocws ar reoli newid, gan weithio gydag ysgolion, colegau a darparwyr addysg seiliedig ar waith i egluro'r newidiadau a rhoi cymorth.

Byddwn yn parhau i fonitro dyfarniadau TGAU a Safon Uwch a rhoi ein rhaglen fonitro ar gyfer y cymwysterau sydd newydd gael eu diwygio ar ôl ein hadolygiadau o'r sector ar waith.

Byddwn yn parhau i lunio ein dull rheoleiddiol ac, ar ôl cwblhau ymgynghoriad mewn tair gwlad, yn cyhoeddi ein Amodau Cydnabod Safonol yn gynnar yn y flwyddyn. Eleni byddwn ni'n cyhoeddi ein Strategaeth Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg. Bydd hon yn egluro sut bydd ein gwaith yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn ni'n parhau i gynnig grantiau i gyrff dyfarnu sy'n helpu cynyddu argaeledd cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Er nad yw'r rheoliadau wedi cael eu cymeradwyo eto i wneud Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i ni, rydym eisoes yn defnyddio nifer ohonyn nhw o'n gwirfodd. Er mwyn dangos ein hymroddiad, rydym wedi cyhoeddi Cynllun y Gymraeg o'n gwirfodd. Yn yr un modd, rydym wedi gosod amcanion lles o'n gwirfodd ac yn defnyddio'r 'Ffyrdd o Weithio' sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn ni'n parhau i weithio tuag at ein hamcanion cydraddoldeb a lles ac i ymgorffori ein polisïau Cymraeg.

Y tu hwnt i Gymru, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau ledled y DU. Ar wahân i'r cymwysterau a ddatblygwyd yn benodol i Gymru, mae mwyafrif y cymwysterau galwedigaethol yn cael eu cynnig ar hyd a lled y DU. Mae polisïau addysg a sgiliau yn Lloegr yn parhau i esblygu mewn cyfeiriadau gwahanol i rai Cymru. Rydym yn cadw llygad barcud ar argaeledd cymwysterau ac yn gweithio gyda chyrff dyfarnu i nodi cymwysterau y gellir eu defnyddio i lenwi unrhyw fylchau posibl, a nodi sut y gallwn ni eu helpu nhw i gynnig rhagor o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Blaenoriaethau gweithredol (2020-21)

3.1. Cyflwyniad a chyd-destun

Mae blaenoriaethau gweithredol 2020-21 yn ddatblygiad o gynllun y llynedd. Mae pedair blaenoriaeth weithredol ar gyfer 2020-21:

1. Adolygu
2. Diwygio
3. Rheoleiddio
4. Adnoddau corfforaethol

3.2. Blaenoriaeth 1 – Adolygu

Ein blaenoriaeth yw gweithio'n effeithiol gyda'r holl system gymwysterau yng Nghymru.

Rydym yn edrych tuag allan, felly rydym yn ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn cydweithio er mwyn cryfhau ein dealltwriaeth a'n gallu i wella cymwysterau er mwyn cwrdd ag anghenion dysgwyr yng Nghymru yn well. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn gwneud ymchwil, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid fel ysgolion, colegau, prifysgolion a chyflogwyr ac yn cael y newyddion diweddaraf am dirwedd polisi ehangach Cymru a rhannau eraill o'r DU. Rydynm yn adolygu ac yn gwerthuso agweddau o'r system gymwysterau er mwyn cryfhau hyder y cyhoedd mewn cymwysterau.

Yn 2020-21 byddwn ni'n:

Rheoli'r prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol
Byddwn yn sefydlu strwythur rheoli prosiect wydn fel y gellir cyflawni ein cyfraniad pwysig i'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithiol ac effeithlon.

Penderfynu ar y gyfres o gymwysterau fydd yn cael eu cymryd yn 16 oed yn y dyfodol
Byddwn yn cyhoeddi penderfyniadau ynglŷn â'n hymagwedd gyffredinol tuag at y gwaith hwn, yn seiliedig ar ein hymgynghoriad cyntaf ar 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol'. Gan dynnu ar ymchwil a chysylltu â rhanddeiliaid, byddwn yn datblygu cynigion ymgynghori ar gyfer cyfres gymwysterau'r dyfodol sydd eu hangen i gefnogi'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys egwyddorion cynllunio ar gyfer y prif gymwysterau sy'n cael eu cymryd yn 16 oed. Byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar ein cynigion ddiwedd y flwyddyn.

Cytuno ar gynllun a pharamedrau'r gyfres TGAU newydd
Gan dynnu ar gynllun a nodweddion asesu'r gyfres bresennol o gymwysterau TGAU cymeradwy i Gymru yn ogystal ag ymchwil ac ymgysylltu mewnol ac allanol byddwn yn datblygu cynigion ymgynghori ynghylch y prif baramedrau cynllunio ac asesu ar gyfer y gyfres TGAU newydd. Byddwn ni'n ymgynghori'n gyhoeddus ar ein cynigion ddiwedd y flwyddyn.

Diffinio'r llwybrau at sicrhau'r prif gymwysterau sy'n cael eu cymryd yn 16 oed
Byddwn yn ystyried ac yn penderfynu sut y gallwn ni ddefnyddio ein pwerau statudol yn fwyaf effeithiol i sicrhau'r ystod o gymwysterau yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r cwricwlwm newydd. Yn ein prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol, byddwn yn dechrau datblygu'r trefniadau angenrheidiol i roi'r dull rydyn ni'n ei ffafrio ar waith.

Cyhoeddi adolygiad y sector peirianneg, gweithgynhyrchu uwch ac ynni
Byddwn ni'n dadansoddi tystiolaeth o'r adolygiad i'r sector cyn datblygu a phrofi cynigion am gamau gweithredu gyda rhanddeiliaid. Byddwn ni'n cyhoeddi ein hadroddiad, gan ymgynghori ar unrhyw gynigion. Os byddwn yn penderfynu bod angen diwygio byddwn yn cynllunio ac yn dechrau eu rhoi ar waith fel bo'n briodol. Byddwn yn ennyn diddordeb yn yr adolygiad i'r sector peirianneg, gweithgynhyrchu uwch ac ynni drwy lansio'r adroddiad yn gyhoeddus.

Dechrau'r adolygiad i'r sector teithio, twristiaeth, lletygarwch ac arlwyo
Byddwn yn cynllunio ac yn cwmpasu'r adolygiad sector hwn ac yn dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector, gan gynnwys dysgwyr.

Ystyried y posibilrwydd o ddiwygio cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn y dyfodol
Byddwn yn penderfynu a ddylid, a sut y dylid diwygio'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol. Os byddwn ni'n penderfynu diwygio'r cymwysterau, byddwn yn datblygu ac yn cyfathrebu ein cynlluniau.

Adolygu argaeledd cymwysterau ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn y dyfodol
Byddwn yn ymgysylltu â chyrff dyfarnu, sefydliadau addysg bellach a Llywodraeth Cymru, i ddatblygu a gweithredu ein polisi a'n dull o sicrhau ystod effeithiol o gymwysterau i ddysgwyr sy'n cymryd cyrsiau addysg a phrentisiaethau ôl-16. Byddwn yn ceisio cynyddu'r cymwysterau sydd ar gael i'w hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg – gan gynnwys trwy ein Grant Cymorth i'r Gymraeg sydd wedi cael ei ailflaenoriaethu.
Dylanwadu ar flaengynllunio cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru
Byddwn yn cyflawni ein prosiectau ymchwil ar ganfyddiadau o ddigwygio TGAU ac asesiadau diarholiad yn y cymwysterau hynny. Byddwn ni'n datblygu dull o werthuso sut rydym yndiwygio cymhwyster. Byddwn yn dadansoddi er mwyn ategu'r prosiect 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol', gan gynnwys cwmpasu ein hanghenion ymchwil cyfredol. Byddwn yn parhau i wneud ymchwil er mwyn mesur a deall hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau. Byddwn hefyd yn gwneud ymdrech i barhau i ystyried defnyddio technoleg wrth asesu yn y dyfodol.

Datblygu'r strategaeth i adolygu a diwygio cymwysterau yn y dyfodol
Byddwn yn adolygu Strategaeth Cymwysterau Cymru, Cynllun Strategol Cymwysterau Cyffredinol, Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol a Chynllun Strategol Gallu Corfforaethol sy'n ymdrin â chyfnod 2017-22.

Cyfathrebu ac ymgysylltu ar flaenoriaethau adolygu
Byddwn yn cyfathrebu ymchwil er mwyn creu dealltwriaeth. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' yn ogystal ag adolygu'r sector peirianneg, gweithgynhyrchu uwch ac ynni a theithio, twristiaeth, lletygarwch ac arlwyo.

3.3. Blaenoriaeth 2 – Diwygio

Ein hymrwymiad ni yw adolygu'r cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru a'r system gymwysterau er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cwrdd ag anghenion rhesymol y dysgwr ac yn hyrwyddo hyder cyhoeddus. Gall hyn arwain at newidiadau i gymwysterau neu at greu rhai newydd. Mae hyn yn rhan bwysig o'n gwaith a gall gael effaith fawr.

Yn 2020-21 byddwn ni'n:

Diwygio'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch a Bagloriaeth Cymru
Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau i'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch. Byddwn yn hybu dealltwriaeth o'r Dystysgrif Her Sgiliau bresennol trwy ddefnyddio cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'i dargedu.

Parhau i ddarparu'r prosiect Diwygio Digidol
Byddwn yn adolygu cyflwyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU a Lefel A Technoleg Ddigidol i gael eu cymeradwyo i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2021 a Medi 2022 yn eu trefn. Byddwn yn gweithio gydag eraill i ddarparu rhaglen o reoli newid a fydd yn helpu ysgolion a cholegau i baratoi ar gyfer y cymwysterau newydd.

Diweddu'r prosiect diwygio iechyd a gofal cymdeithasol
Byddwn yn cwblhau cymeradwyo'r cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n weddill ac yn rhoi cymorth i'r system gymwysterau wrth eu rhoi ar waith.

Parhau â'r prosiect diwygio adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
Byddwn ni'n goruchwylio cyflwyno cymwysterau Sylfaen, Cynnydd a Phrentisiaethau newydd yn ogystal â chymwysterau TGAU a Safon Uwch yr Amgylchedd Adeiledig wrth iddyn nhw symud trwy ein proses gymeradwyo cyn eu cyhoeddi. Byddwn yn gweithio gyda'r cyrff dyfarnu i ddarparu a goruchwylio rhaglen reoli newid i sicrhau bod darparwyr addysg a chyflogwyr yn barod i ddarparu'r cymwysterau o fis Medi 2021 ymlaen.

Parhau i reoli grantiau'n effeithiol
Byddwn yn rheoli'r Grantiau Cymraeg i Oedolion, Cymwysterau Cyffredinol Cyfrwng Cymraeg CBAC a Grantiau Diwygio Cymwysterau ac yn gwneud gwybodaeth yn dryloyw gan gynnwys hysbysu rhanddeiliaid o gymwysterau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf.

Cryfhau asesu yn y system gymwysterau
Wrth ddatblygu ein dull o wella safon mewn cymwysterau byddwn yn parhau i ddatblygu ein model arloesol, 'MERV' fel arf i ystyried i ba raddau mae asesiadau a chymwysterau yn Hydrin, Diddorol, Dibynadwy a Dilys (Manageable, Engaging, Reliable and Valid). Byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio'r model hwn ar hyd a lled y sefydliad, gan gynnwys wrth i ni ddatblygu cynllun i gryfhau sgiliau dylunio asesiadau mewn cyrff dyfarnu cydnabyddedig.

Cyfathrebu ac ymgysylltu ynglŷn â blaenoriaethau diwygio
Byddwn yn datblygu'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n holl randdeiliaid sy'n rhan o wneud newidiadau i gymwysterau. Byddwn yn canolbwyntio'n arbennig ar ymgysylltu â chanolfannau fel eu bod nhw'n barod ar gyfer newidiadau.

3.4. Blaenoriaeth 3 – Rheoleiddio

Rydyn ni'n rheoleiddio cymwysterau sy'n cael eu datblygu a'u darparu gan y cyrff dyfarnu rydyn ni'n eu cydnabod. Pan gaiff ei gydnabod, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â'r rheolau rydyn ni'n eu gosod. Rydyn ni'n monitro cydymffurfiaeth yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol ac yn defnyddio ein pwerau gorfodi a gorchymyn i sicrhau bod y system yn cwrdd ag anghenion dysgwyr.

Yn 2020-21 byddwn ni'n:

Adolygu a diwygio ein fframwaith a dull rheoleiddiol
Byddwn yn diweddaru ein fframwaith a'n dull rheoleiddiol ac yn darparu cymorth parhaus i gyrff dyfarnu i gydymffurfio â'n Amodau Cydnabod Safonol diwygiedig. Byddwn ni'n lansio ein Strategaeth Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg ac yn rhoi cymorth i gyrff dyfarnu i gynyddu'r dewis o gymwysterau sydd ar gael yn y ddwy iaith.

Rheoleiddio cyrff dyfarnu
Byddwn yn parhau i adolygu ceisiadau gan sefydliadau sydd eisiau bod yn gyrff dyfarnu cydnabyddedig, neu gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig sydd eisiau cydnabyddiaeth ychwanegol. Byddwn yn parhau i adolygu datganiadau cydymffurfio cyrff dyfarnu a chynnal archwiliadau o gyrff dyfarnu a gweithgarwch monitro a drefnwyd. Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd diweddaru rheoleiddiol, monitro digwyddiadau a adroddwyd gan gyrff

dyfarnu a rheoli cwynion am gyrff dyfarnu – gan gynnwys cwynion chwythu'r chwiban rheoleiddiol.

Dynodi cymwysterau
Byddwn yn ystyried ceisiadau, gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig, i ddynodi cymwysterau yn gymwys i dderbyn arian cyhoeddus. Byddwn yn parhau i wireddu ein rôl ar Grwpiau Llywio Partner Darparu Prentisiaethau Llywodraeth Cymru.

Monitro cymwysterau
Byddwn yn monitro sut mae cyfres arholiadau haf 2020 a gaeaf 2020-21 yn cael eu darparu. Byddwn yn monitro datblygiad asesu ar gyfer cyfresi arholiadau yn y dyfodol a rhoi'r cymwysterau Iechyd a Diogelwch, a Gofal Plant ar waith a'u darparu.

Goruchwylio gosod a chynnal safonau priodol ar gyfer cymwysterau
Byddwn ni'n goruchwylio cynnal safonau priodol ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu â rheoleiddwyr eraill o ran cynnal safonau ar gyfer cymwysterau tair gwlad.

Rheoli QiW
Byddwn yn sicrhau bod pob cymhwyster rheoleiddiedig yn cael eu cynnwys ar fas data QiW, gan barhau i reoli pob proses gysylltiedig yn effeithiol. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i gasglu adborth ac awgrymiadau am sut i wella'r system QiW yn barhaus.

Casglu data a chynhyrchu ystadegau
Byddwn yn casglu data am ddyfarniadau a cheisiadau am gymwysterau ac yn cynhyrchu ystadegau swyddogol a dadansoddiad ystadegol yn unol â'n hamserlen a gyhoeddwyd.

Cyfathrebu ac ymgysylltu ar flaenoriaethau Rheoleiddio
Byddwn yn rhoi dull strategol newydd o ymgysylltu ar waith a fydd o gymorth i'r system gymwysterau. Byddwn ni'n parhau i ddatblygu ein brand 'Arholiadau 360' er mwyn cyfathrebu i wella dealltwriaeth o'r system arholiadau.

3.5. Blaenoriaeth 4 – Gallu a chapasiti corfforaethol

Rydym yn gwybod bod meddu ar allu corfforaethol effeithiol yn gymorth i'n gallu i gyflawni a'i fod yn cyfoethogi ein henw da gyda rhanddeiliaid. Rydym yn ymdrechu i wneud penderfyniadau sy'n gytbwys, ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn gwrando ar randdeiliaid ac yn rhoi gwybodaeth eglur. Rydym yn ceisio parhau i ennyn ymddiriedaeth trwy reoli ein hadnoddau'n effeithiol ac yn wydn a thrwy ddefnyddio arferion corfforaethol sy'n gydsyniol.

Yn 2020-21 byddwn ni'n:

Darparu gwasanaethau corfforaethol sy'n helpu ac yn herio'r sefydliad i fod yn effeithlon, effeithiol a chydymffurfio yn y meysydd canlynol:
• Llywodraethu Corfforaethol • Cyllid • Adnoddau Dynol • Caffael • Cyfleusterau • TG • Ymchwil

Tendr ar gyfer systemau Cyllid ac Adnoddau Dynol newydd a dechrau eu rhoi ar waith
Byddwn yn sefydlu trefniadau hirdymor ar gyfer Cyllid, Adnoddau Dynol a meddalwedd system dreuliau sy'n cynnig gwerth am arian ac yn galluogi ein nodweddion cyllid, caffael ac Adnoddau Dynol i weithredu'n effeithlon ac effeithiol.

Cyflawni'r ymagwedd ddiwygiedig tuag at berfformiad a datblygiad staff
Byddwn yn lansio ac yn ymgorffori polisi ac ymagwedd sefydliadol tuag at berfformiad a datblygiad ein staff. Byddwn yn cynnwys hyfforddiant adborth yn ein cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer staff. Byddwn yn cynnal hyfforddiant arwain a rheoli fel rhan o'r grŵp Traws Sector Cyhoeddus.

Cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb
Byddwn yn parhau i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb drwy ein gwaith rheoleiddiol a chorfforaethol. Byddwn yn sicrhau amrywiaeth yn y gweithlu ac ar y Bwrdd ac yn gwella sut rydym yn gweithredu fel sefydliad cynhwysol yn barhaus.

Cyhoeddi adroddiadau corfforaethol ar amser ac i safon uchel
Yr adroddiadau gaiff eu cynnwys fydd: • Cynllun Busnes a Chynllun Gweithredol 2020-21 • Cyfrifon Blynyddol 2019-20 • Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019-20 • Adroddiad y Gymraeg 2019-20 • Adroddiad Blynyddol 2019-20

Cyflawni camau gweithredu Cynllun y Gymraeg

Byddwn yn parhau i ddatblygu camau gweithredu Cynllun y Gymraeg. Ein ffocws eleni fydd rhoi blaenoriaethau'r Gymraeg ar waith a darparu hyfforddiant a gwybodaeth i staff er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Byddwn yn adolygu Cynllun y Gymraeg er mwyn sicrhau ein bod ni'n symud tuag at Safonau'r Gymraeg.

Rhoi cymorth i les staff a rheoli ein heffaith amgylcheddol
Byddwn yn gweithio tuag at gyflawni'r Wobr Safon Iechyd Corfforaethol Arian drwy ymgorffori diwylliant iechyd a lles positif. Byddwn yn cynnig amgylchedd gwaith ac yn cefnogi diwylliant sy'n annog ffyrdd iach o fyw ymhlith staff a lles yn y tymor hir. Byddwn yn gweithio tuag at gyflawni Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Fel rhan o'n gweithgarwch Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, byddwn yn helpu staff i ddefnyddio eu diwrnod blynyddol â thâl i ddarparu rhaglen o weithgareddau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

Gweithio ar y cyd gyda sector cyhoeddus Cymru i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar hyd a lled y sector cyhoeddus i roi cymorth i'r system gymwysterau a chymryd mantais o gyfleoedd er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Eleni, byddwn yn gweithio gyda Chyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru i gaffael a rheoli rhaglen dysgu a datblygu i reolwyr, a byddwn ni'n parhau i roi cymorth TG i Academi Genedlaethol Arwain Addysgiadol a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Lleol Cymru.

Gwneud gwelliannau i system QiW
Byddwn yn cynnal rhaglen o newid i wella nodweddion ein bas data cymwysterau sy'n wynebu tuag allan. Ymysg y newidiadau bydd caniatáu cymwysterau 'Eraill a Reoleiddir' i gael eu cynnwys a darparu newyddion a hysbysiadau i ddefnyddwyr.

Gwella cyfathrebu ac ymgysylltu'n barhaus
Byddwn yn rhoi strategaethau Cyfathrebu ac Ymgysylltu a Chyfathrebu Mewnol ar waith. Byddwn yn adolygu ac yn addasu hygyrchedd ein gwefan er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth hygyrchedd. Byddwn hefyd yn ail-lansio ein gwefan ac yn adfywio ein brand corfforaethol. Byddwn yn rhoi dull newydd o ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol ar waith.

4. Cyllid a gwariant arfaethedig (2020-21)

Ariennir Cymwysterau Cymru yn bennaf gan Lywodraeth Cymru. Y nawdd craidd sydd wedi ei ddyrannu inni ar gyfer 2020-21 yw £8.067m, mae £200,000 arall yn cael ei ddyrannu i ni i ariannu'r cymhwyster 'Cymraeg i Oedolion', ac mae £981,000 arall yn cael ei ddyrannu i ni i ariannu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'n prosiect 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol'. Rydym hefyd yn bwriadu creu incwm o ryw £40,000 trwy ddarparu gwasanaethau cymorth TGCh i ddau Gorff arall a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac, ers 1 Ebrill 2020, mae gennym arian wrth gefn o £282,000 ar ein cyfriflen y gellir ei ddefnyddio.

Mae gennym Gynllun Cyllid Tymor Canolig a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Mawrth 2020 ar gyfer cyfnod 2020-21 i 2022-23. Mae hwn yn amcangyfrif ein costau yn ystod y cyfnod hwn ac yn rhoi gwaelodlin ar gyfer trafodaethau cyllid gyda Llywodraeth Cymru.

Ceir crynodeb o'n cyllideb ar gyfer 2020-21 isod:

Area	**2020-21 Core Budget** **£'000**	**2020-21 Qualified for the Future Budget** **£'000**	**2020-21 Total Budget** **£'000**
Pay	5,124	743	5,867
Grants	734	0	734
Programme	1,060	156	1,216
Running	1,276	20	1,296
Accounting Officer Programme Budget	0	62	62
Core QW Activity	**8,194**	**981**	**9,175**
Welsh for Adults Grant	200		200
Overall Total	**8,394**	**981**	**9,375**
Funding			
Welsh Government Grant			8,067
Core grant funding			200
Welsh for Adults Funding			981
Qualified for the Future Funding			
ICT Income			40
Total funding			**9,288**
Potential funding shortfall			87

Gellir priodoli'r bwlch mewn nawdd o £87,000 rhwng cyfanswm y nawdd sydd ar gael (£9.288m), a'r cyfanswm amcangyfrifol angenrheidiol (£9.375m) yn llwyr i'r ddarpariaeth a wnaed yn y gyllideb i dalu am unrhyw ddyfarniad tâl yn 2020-21. Rydym wedi hysbysu Llywodraeth Cymru y gallai fod angen nawdd ychwanegol os oes dyfarniad cyflog, a chytunwyd y caiff nawdd ar gyfer y gost hon ei asesu unwaith i unrhyw ddyfarniad cyflog fod yn hysbys.

Rydym wedi cael caniatâd gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r arian wrth gefn i dalu am unrhyw gostau a achoswyd gan ail-dendro ein systemau Cyllid ac Adnoddau Dynol. Daw

costau hyn ar gyfer eleni a'r flwyddyn nesaf yn gliriach wrth i'r prosiect ddatblygu, felly nid ydynt yn cael eu cynnwys yn ein cyllidebau amcangyfrifol presennol.

Mae'r diagram isod yn dangos ymhellach sut rydyn ni'n bwriadu gwario ein cyllideb o £9.375m:



Bydd ein cynlluniau gwariant yn ddibynnol ar adolygiadau rheolaidd wrth i ni ystyried sut mae ein Cynllun Busnes yn cael ei gyflawni ac unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.